# Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghyfnod Allweddol 4

Canllawiau i ysgolion

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghyfnod Allweddol 4

Canllawiau i ysgolion

**Cynulleidfa** Athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; pob lleoliad a ariennir nas cynhelir; colegau a darparwyr dysgu eraill sy'n gweithio gyda dysgwyr rhwng 14 a 19 oed yng Nghymru; awdurdodau lleol; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon; ac eraill sydd â diddordeb mewn datblygiad proffesiynol parhaus.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar hawl pob dysgwr rhwng 14 ac 16 oed i ddatblygu a defnyddio ei sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a, lle'n briodol, i'w gyflawniadau gael eu cydnabod gan gymhwyster sydd wedi'i achredu. Mae'n cynnwys awgrymiadau ar sut y gellir rhoi'r hawl hon i ysgolion mewn ffordd hydrin.

**Camau i'w cymryd** Adolygu'r dewisiadau yng Nghyfnod Allweddol 4 i ddysgwyr sy'n dechrau Blwyddyn 10 ym mis Medi 2010.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y canllawiau hyn at:

Y Gangen Cymwysterau Cyffredinol a Moderneiddio
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT
Ffôn: 01443 663 767
e-bost: info.quals@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg)
0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920
e-bost: dcells1@prolog.uk.com
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig** *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru; Safonau Sgiliau Hanfodol Cymru ar gyfer TGCh*; manylebau cyrff dyfarnu ar gyfer cymwysterau TGCh

75% wedi'i ailgylchu recycled
Cyf: CAD/GM/0093
ISBN: 978 07504 5281 6
A-EAC-02-01-qA799048/1/ABND
© Hawlfraint y Goron Hydref 2009

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**Pwysigrwydd TGCh** **3**

**Y cwricwlwm yng Nghymru** **5**

- Beth yw ystyr hawl yn y cyd-destun hwn? 5
- Pam nawr? 6
- Pa gymwysterau? 7
- Elfennau allweddol darpariaeth lwyddiannus 8
- TGCh a dysgu mewn pynciau eraill 9
- Cynhwysiant 9
- Heriau o ran cynyddu darpariaeth 10

**Cymwysterau** **11**

- Cymwysterau generig 11
- Manylion cyswllt 14
- Cymwysterau arbenigol 14

**Astudiaethau achos** **15**

**Y ffordd ymlaen** **22**

**Atodiad** **24**

- Enghreifftiau o gymwysterau TGCh arbenigol 24

**Cydnabyddiaethau** **28**

# Cyflwyniad

Nod Llwybrau Dysgu 14–19 yw sicrhau bod pobl ifanc yn cael y math cywir o ddarpariaeth ddysgu i ddiwallu eu hanghenion a'u dyheadau eu hunain. Mae'n anelu at ddarparu 'llwybrau dysgu unigol a fydd yn diwallu anghenion y dysgwyr' ar bob lefel gallu, a chynnig 'cyfleoedd a phrofiadau cyfoethocach a fydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau ehangach y bydd arnynt eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith'.

Un agwedd ar gyflawni'r nodau hynny yw darparu cyrsiau a chymwysterau priodol yn yr oedran 14–16 (Cyfnod Allweddol 4) sy'n golygu gall dysgwyr ddatblygu a defnyddio'u sgiliau TGCh a sicrhau bod y sgiliau hynny'n cael eu cydnabod gan gymhwyster sydd wedi'i achredu.

Mae llawer o ysgolion eisoes yn cynnig ystod o gyrsiau TGCh ac mae cyfran uchel o ddysgwyr yn ennill cymhwyster TGCh yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Nod y canllawiau hyn yw helpu ysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i ddatblygu a chymhwyso ei sgiliau TGCh a bod y sgiliau hynny'n cael eu cydnabod gan gymhwyster allanol addas yn ystod Cyfnod Allweddol 4.

# Pwysigrwydd TGCh

Mae pwysigrwydd cynyddol sgiliau TGCh wedi cael llawer o sylw. Mae adroddiad y CBI sef *Working on the Three Rs* yn cydnabod pwysigrwydd cynyddol graddol TG mewn cynifer o agweddau ar fywyd gwaith. Mae'r adroddiad *Leitch Review of Skills: Prosperity for all in the global economy – world class skills (Final Report)* yn cydnabod y caiff sgiliau a ystyriwyd yn sgiliau lefel uchel ar un adeg eu hystyried yn sgiliau sylfaenol bellach, a hynny'n gynyddol. Mae'r gallu i ddefnyddio cyfrifiadur yn un o'r sgiliau cyffredinol mwyaf amlwg a chyffredin. Yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf bu cynnydd mawr yn yr angen am sgiliau TG ym mhob swydd a sector. Mae'r ddogfen *Digital Britain Final Report* yn cydnabod nad ar gyfer gwaith yn unig mae sgiliau TGCh yn berthnasol, gan nodi bod sgiliau bywyd digidol yn hanfodol i gyflogadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol mewn cymdeithas a ddylanwadir gan TGCh yn gynyddol.

Roedd Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru sef *Adolygiad o'r cwricwlwm ysgol a threfniadau asesu 5–16* (ACCAC, 2004) yn sail i'r cwricwlwm diwygiedig a gafodd ei roi ar waith mewn ysgolion yng Nghymru o 2008. Dilynodd yr adroddiad raglen eang o fonitro ac adolygu'r cwricwlwm ysgol a threfniadau asesu.

Neges allweddol yn yr adroddiad oedd pwysigrwydd datblygu cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac ar sgiliau, sy'n berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain ac yn cynnwys pob dysgwr. Yng Nghyfnod Allweddol 4, y neges oedd y dylai'r cwricwlwm ' . . . roi mwy o bwyslais ar anghenion y dysgwr wrth ddatblygu sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd, ar gyfer gwaith ac ar gyfer dysgu pellach'.

Dangosodd yr adolygiad fod ysgolion o'r farn bod gan y cwricwlwm statudol ran bwysig i'w chwarae yn y broses o ddatblygu sgiliau TGCh. Roedd athrawon o'r farn y byddai ychwanegu hawl i gael hyfforddiant TGCh yng Nghyfnod Allweddol 4 yn helpu i sicrhau y gallai dysgwyr ddatblygu a defnyddio eu sgiliau TGCh hyd at 16 oed. Byddai hyn hefyd yn gydnaws â chynnwys TGCh fel sgil allweddol yn Llwybrau Dysgu 14–19 a rhan greiddiol Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC).

O ganlyniad, argymhellodd yr adroddiad y dylai ysgolion roi cyfle i bob dysgwr ddatblygu a defnyddio ei sgiliau TGCh yn yr oedran 14–16 a, lle y bo'n briodol, dylid cydnabod y sgiliau hynny yng Nghyfnod Allweddol 4 drwy gymhwyster sydd wedi'i achredu.

Mae trafodaethau parhaus ers 2004 wedi pwysleisio gwerth yr ystod eang o gymwysterau TGCh sydd ar gael, gan gynnwys cymwysterau a gynigir gan gyrff dyfarnu penodol megis DiDA, Cymwysterau Cenedlaethol OCR, CLAIT ac ECDL. Bydd Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) yn cymryd lle Sgiliau Allweddol o 2010 yn sgîl datblygiadau eraill yng Nghymru. Bydd Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn golygu y gellir cymharu cyflawniadau gwahanol weithgareddau a chydnabod cymwysterau sydd wedi'u cwblhau'n llawn a'r rhai sydd wedi'u cwblhau'n rhannol. Felly, mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar y rhagosodiad eang y dylai dysgwyr gael yr hawl i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau TGCh yn yr oedran 14–16, ac y dylid cydnabod y sgiliau hynny yng Nghyfnod Allweddol 4 drwy amrywiaeth o gymwysterau sydd wedi'u hachredu. Dylai ysgolion gael yr hyblygrwydd i bennu pa gymhwyster sydd fwyaf priodol ar gyfer dysgwyr unigol.

# Y cwricwlwm yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau TGCh i bob dysgwr yng Nghymru ynghyd â photensial TGCh i wella dysgu a chyflawniadau ar draws y cwricwlwm cyfan.

Rydym am i bob dysgwr yng Nghymru gael y cyfle i ddatblygu ei sgiliau TGCh. Lluniwyd y cwricwlwm diwygiedig yng Nghymru i feithrin sgiliau TGCh dysgwyr i lefelau uchel ac i roi cyfleoedd i bob dysgwr ddatblygu a defnyddio'r sgiliau hynny yn y cwricwlwm cyfan. Caiff pwysigrwydd sgiliau TGCh ei adlewyrchu yn y rhan a chwaraeir gan y sgiliau hyn yn y cwricwlwm.

- Mae sgiliau TGCh yn rhan allweddol o'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*.
- Mae'r Cyfnod Sylfaen (i ddysgwyr rhwng 3 a 7 oed) a'r cwricwlwm cenedlaethol (i ddysgwyr rhwng 7 a 14 oed) yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr feithrin a defnyddio eu sgiliau TGCh mewn ffyrdd cyfannol a hanfodol ar draws y cwricwlwm cyfan.
- Mae sgiliau TGCh yn rhan allweddol o'r gyfres Sgiliau Hanfodol Cymru.
- I ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed, mae gofynion Craidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) yn cynnwys sgiliau TGCh.

## Beth yw ystyr hawl yn y cyd-destun hwn?

Mae hawl yn ymwneud â:

- rhoi grym i ddysgwyr ar gyfer y dyfodol (ar gyfer astudiaeth, cyflogaeth a fel dinasyddion mewn oes ddigidol)
- rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio eu sgiliau TGCh yn ystod Cyfnod Allweddol 4
- rhoi hyblygrwydd i ysgolion ymateb i anghenion a diddordebau dysgwyr unigol mewn ffordd hydrin
- sicrhau bod dysgwyr yn dilyn cyrsiau sydd wedi'u trefnu'n dda (cyrsiau sydd wedi'u hamserlennu neu rai trawsgwricwlaidd) gydag adnoddau addas (adnoddau dynol ynghyd â chyfarpar)
- cydnabod cyflawniadau dysgwyr a'u dathlu.

**Nid** yw hawl yn ymwneud â:

- cyfyngu ar ddewisiadau ysgolion neu ddysgwyr
- gorfodi pob dysgwr Cyfnod Allweddol 4 mewn ysgol i ddilyn yr un cwrs

- awgrymu bod cymhwyster penodol yn fwy priodol nag un arall i bob dysgwr
- lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer TGCh i ddysgwyr unigol fel y gellir rhoi hawl ofynnol i bawb
- gorfodi pob dysgwr i ddilyn cwrs astudio wedi'i amserlennu ar gyfer TGCh yn ystod Cyfnod Allweddol 4.

Mae'n bwysig nodi bod hawl dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau TGCh a'u defnyddio yn ymwneud yn benodol â Chyfnod Allweddol 4 yn y cyd-destun hwn. Mae rhai ysgolion yn cofrestru dysgwyr ar gyfer cymhwyster mewn TGCh sydd wedi'i achredu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Gan gymryd y bodlonir gofynion TGCh y cwricwlwm cenedlaethol drwy gydol Cyfnod Allweddol 3, mae gan ysgolion yr hyblygrwydd i wneud hyn. Er hynny, ni ddylid ystyried cymhwyster TGCh ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 fel diwedd cyfrifoldeb ysgol o ran meithrin sgiliau TGCh yn ystod Cyfnod Allweddol 4 a thu hwnt.

## Pam nawr?

Mae TGCh yn faes pwnc sy'n newid yn gyflym, a adlewyrchir yn y datblygiadau diweddar i sicrhau y gall dysgwyr yng Nghymru ddilyn cyrsiau ac ennill cymwysterau TGCh sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

- Mae'r cwricwlwm diwygiedig yn cynnwys Gorchymyn diwygiedig ar gyfer TGCh gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau.
- Mae'r fframwaith Sgiliau yn darparu canllawiau ar barhad a dilyniant mewn TGCh i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed ac yn cydnabod pwysigrwydd TGCh ar draws y cwricwlwm cyfan.
- Y dysgwyr sy'n dechrau Cyfnod Allweddol 4 ym mis Medi 2010 fydd y rhai cyntaf i ddilyn y rhaglen astudio ddiwygiedig ar gyfer TGCh yng Nghyfnod Allweddol 3 (ers mis Medi 2008).
- Caiff manylebau diwygiedig ar gyfer TGAU mewn TGCh eu cynnig o fis Medi 2010.
- Caiff cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru eu cynnig o fis Medi 2010.

Mae materion ehangach i'w hystyried hefyd, gan gynnwys:

- y cynnydd mawr mewn sgiliau/profiadau TGCh y tu allan i'r ysgol i lawer o ddysgwyr a'r angen i ysgolion ystyried y rhain ac adeiladu arnyn nhw

- pwysigrwydd cynyddol llythrennedd cyfryngol i ddefnyddio, deall a chreu technoleg gyfathrebu mewn bywyd bob dydd
- pwysigrwydd cynyddol e-ddiogelwch, na ellir ei gyflawni drwy ddatrysiadau technolegol yn unig, ond drwy hyrwyddo defnydd diogel a chyfrifol o TGCh ymysg plant a phobl ifanc.

## Pa gymwysterau?

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gan ysgolion yr hyblygrwydd i deilwra darpariaeth i anghenion a diddordebau dysgwyr unigol. Llunnir y canllawiau hyn gan dybio bod cymwysterau rhwng Mynediad 1 a Lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yn diwallu anghenion y mwyafrif o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4. Yr ysgolion sydd i bennu pa gymhwyster/manyleb sydd fwyaf priodol ar gyfer dysgwyr unigol.

| Y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol | Cymwysterau Cyfnod Allweddol 4 nodweddiadol** |
|---|---|
| Lefel 3 | Safon UG |
| Lefel 2 | TGAU C i A*, Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 2***, NVQ 2 |
| Lefel 1 | TGAU G i D, Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 1***, NVQ 1 |
| Mynediad 3 | Lefel Mynediad, Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel Mynediad 3*** |
| Mynediad 2 | Lefel Mynediad, Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel Mynediad 2*** |
| Mynediad 1 | Lefel Mynediad, Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel Mynediad 1*** |

** Yn ogystal â'r cymwysterau generig a restrir, mae cyrff dyfarnu unigol yn cynnig ystod o gymwysterau TGCh penodol, a nodir rhai ohonyn nhw yn yr atodiad (tudalen 24).

*** Bydd cymwysterau TGCh Sgiliau Hanfodol Cymru yn disodli cymwysterau TGCh Sgiliau Allweddol yng Nghymru o 2010.

## Elfennau allweddol darpariaeth lwyddiannus

Er bod ysgolion yng Nghymru'n amrywio o ran maint, lleoliad daearyddol, adnoddau a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, mae rhai elfennau allweddol i ddarpariaeth TGCh lwyddiannus sy'n berthnasol i bob un.

- Mae pob aelod o staff yn ymrwymo i feithrin sgiliau TGCh, a arweinir gan uwch reolwyr.
- Cydnabyddir bod TGCh yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn bywyd bob dydd y tu allan i'r ysgol, felly dylid ei hystyried fel rhan gyffredin o fywyd yn yr ysgol.
- Mae disgwyliadau uchel o ran yr hyn y gall dysgwyr ei gyflawni – gan ystyried y sgiliau TGCh maen nhw eisoes yn eu datblygu y tu allan i'r ysgol.
- Mae tîm craidd o athrawon sydd â digon o adnoddau ac sydd am sicrhau bod dysgwyr yn llwyddo ym maes TGCh yn creu cymhelliant pwerus. Mae'n anodd gorbwysleisio gallu'r tîm craidd hwn i gynorthwyo eraill a chreu dysgu gwell.
- Mae sgiliau TGCh yn cael eu meithrin yn effeithiol ymysg dysgwyr cyn-14, gan roi sylfaen gref ar gyfer datblygiad pellach yn ystod Cyfnod Allweddol 4 a thu hwnt.
- Mae'r ysgol yn cynnig ystod o gymwysterau TGCh fel y caiff anghenion a diddordebau dysgwyr unigol eu hystyried.
- Mae amser priodol yn cael ei dreulio ar feithrin sgiliau TGCh yn ystod Cyfnod Allweddol 4, yn unol â chanllawiau cyrff dyfarnu ar gyfer y cwrs dan sylw.
- Mae athrawon yn ymwybodol o'r cymwysterau diweddaraf sydd ar gael – mae cymwysterau TGCh wedi newid yn sylweddol ac maen nhw'n parhau i wneud hynny[1].

[1] Ers mis Medi 2008, mae manylebau UG a Safon Uwch wedi newid a datblygwyd safonau Sgiliau Hanfodol Cymru. Bydd cymwysterau TGAU diwygiedig yn cael eu cyflwyno ym mis Medi 2010. Mae'r dulliau o asesu wedi newid, gyda chymwysterau UG dwy uned, defnydd cynyddol o e-asesu ac asesiadau a reolir, sy'n pennu'r rheolau ar gyfer gosod, cyflawni a marcio tasgau, gan gymryd lle gwaith cwrs TGAU. Yn ogystal, ceir ystod o ddarpariaeth arbenigol a gynigir gan gyrff dyfarnu penodol. Gall yr holl ffactorau hyn effeithio ar ddewis y dysgwr ac mae'n rhaid i athrawon fod yn ymwybodol o'r cymwysterau diweddaraf i wneud penderfyniadau hyddysg.

## TGCh a dysgu mewn pynciau eraill

Mae gan arweinwyr ysgol rôl bwysig yn y broses o gynllunio a hyrwyddo'r defnydd o TGCh ar draws y cwricwlwm cyfan.

Mewn cynllun gwaith sydd wedi'i gynllunio'n dda, mae defnyddio TGCh mewn pynciau eraill mewn ffordd berthnasol a realistig yn cynnig cyfleoedd i wella gwaith y dysgwyr yn y maes dan sylw a datblygu eu profiad o'r maes TGCh a'u sgiliau ynddo. Gall defnyddio TGCh yn y cwricwlwm cyfan annog dulliau rhyngweithiol ac archwiliadol o ddysgu mewn pynciau eraill ac arddulliau dysgu gweithredol yn hytrach na rhai goddefol.

Pan fydd dysgwyr yn gallu defnyddio TGCh yn effeithiol yn y cwricwlwm cyfan, byddan nhw'n gwneud y gorau o gyfleoedd i drosglwyddo eu sgiliau TGCh i sefyllfaoedd newydd.

Gall dysgwyr gasglu tystiolaeth sy'n deillio o'r cwricwlwm cyfan ar gyfer portffolios Sgiliau Hanfodol Cymru, fel y nodir ar dudalen 11.

## Cynhwysiant

Dylai ysgolion fanteisio i'r eithaf ar botensial TGCh i gynnwys pob dysgwr a'i helpu i wneud cynnydd. Ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth, gellir defnyddio TGCh i wella sgiliau cyfathrebu a mynediad ar draws y cwricwlwm cyfan. Bydd yr Adran Addysg, Plant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn darparu canllawiau ar wahân ar gynnydd o ran sgiliau TGCh ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr yn ystod gwanwyn 2010.

Gall TGCh ysgogi dysgwyr o bob gallu. Gellir cael gafael ar wybodaeth a'i chyflwyno'n ysgrifenedig, ar ffurf graffeg neu drwy sain, yn unol ag arddulliau dysgu, cryfderau a diddordebau myfyrwyr unigol. Gellir defnyddio technolegau cynorthwyol i helpu dysgwyr sy'n cael problemau o ran mynediad i oresgyn rhwystrau. Gellir helpu pobl sydd ag anawsterau corfforol, synhwyraidd a dysgu drwy ddefnyddio TGCh.

Y nod yw sicrhau bod cyflawniadau pob dysgwr Cyfnod Allweddol 4 yn cael eu cydnabod gan gymhwyster priodol. Mae'r tabl ar dudalen 7 yn rhestru'r cymwysterau sy'n cydnabod cyflawniadau o (Lefel) Mynediad 1 i Lefel 3, ac yn dangos yr ystod eang sydd ar gael. Gellir cydnabod dysgu o dan Lefel 1 y cwricwlwm cenedlaethol drwy achredu uned.

Efallai bydd dysgwyr hefyd yn symud ymlaen i gymhwyster lefel uwch ar ôl cwblhau Cyfnod Allweddol 4, er enghraifft o lefel Mynediad ym Mlwyddyn 11 i gymhwyster Lefel 1/Lefel 2 ym Mlwyddyn 12 neu 13. Yn yr un modd, ar gyfer y dysgwyr hynny sydd â'r gallu i gyflawni gwaith o safon uwch, gellir astudio ar gyfer cymhwyster UG mewn TGCh ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, fel y nodir yn yr astudiaeth achos ar dudalen 19.

## Heriau o ran cynyddu darpariaeth

Bydd rhain yn amrywio o ysgol i ysgol, ond mae rhai o'r heriau a wynebir gan y rheini sy'n cynnig TGCh i gyfran o ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 ar hyn o bryd yn cynnwys:

- sicrhau bod adnoddau digonol (staff, cyfarpar, trwyddedau meddalwedd a lle) ar gael i gynyddu'r ddarpariaeth
- rhoi cefnogaeth o ansawdd da i staff sydd o bosibl yn paratoi dysgwyr ar gyfer cymhwyster TGCh am y tro cyntaf
- sicrhau bod pob dysgwr yn cael profiadau priodol ym maes TGCh sy'n ei alluogi i wneud cynnydd
- cynyddu darpariaeth heb leihau'r dewisiadau sydd ar gael (er enghraifft, drwy gynnig un cwrs TGCh yn unig i holl ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4)
- ysgogi pob dysgwr, nid dim ond y rheini sydd â diddordeb arbennig mewn TGCh
- gweithio'n unol â'r strwythur amserlen sefydledig
- neilltuo amser priodol, yn unol â'r oriau dysgu o dan arweiniad a gyhoeddwyd, lle bo'n briodol
- galluogi athrawon i gydweithio yn ystod y broses o gynllunio, darparu, llunio tystiolaeth ac asesu lle y defnyddir dull gweithredu trawsgwricwlaidd
- adolygu'r effaith ar ddysgu ac addysgu yn y cwricwlwm cyfan ac o ran ystod oedran yn yr ysgol yn effeithiol.

# Cymwysterau

## Cymwysterau generig

Mae'r adran hon yn edrych ar gymwysterau sy'n debygol o gael eu cynnig gan nifer o gyrff dyfarnu ym mis Medi 2010.

### Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC)

Mae safonau TGCh Sgiliau am Oes a safonau TGCh Sgiliau Allweddol wedi'u cydgyfeirio i greu cyfres o safonau sgiliau a chymwysterau o Lefel Mynediad 1 i Lefel 4. Nid oedd y broses hon o gydgyfeirio'r ddwy set yn un syml; manteisiwyd ar y cyfle hwn i ddiwygio'r safonau er mwyn iddyn nhw adlewyrchu datblygiadau ym maes TGCh. Bydd cymwysterau sy'n seiliedig ar y safonau hyn[2] ar gael i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2010, a byddan nhw'n disodli Sgil Allweddol gyfredol TGCh a TGCh Sgiliau am Oes o'r dyddiad hwnnw.

Ar Lefelau 1, 2, 3 a 4, caiff y cymwysterau eu hasesu drwy bortffolio o dystiolaeth a gaiff ei asesu'n fewnol a'i gymedroli neu ei wirio'n allanol gan gyrff dyfarnu. Yn y byrdymor, bydd cyrff dyfarnu'n parhau i ddatblygu eu hasesiadau eu hunain ar gyfer lefel Mynediad; er hynny, caiff rhain eu hadolygu i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion cymwysterau TGCh SHC.

Pan gaiff cymwysterau eu hasesu gan bortffolio yn unig, cyfrifoldeb yr ysgol yw penderfynu ar y ffordd orau i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau a chasglu tystiolaeth briodol i'w portffolios.

Gallai proses ofalus o fapio cyfraniadau posibl gan nifer o bynciau i'r meini prawf asesu a gyhoeddwyd alluogi dysgwyr i adeiladu eu portffolios o bob rhan o'r cwricwlwm, heb wersi TGCh penodol os gwyddys eu bod yn gymwys yn y sgiliau hyn. Er hynny, mae angen gwneud hyn yn ofalus i sicrhau bod y broses o ddatblygu sgiliau TGCh a chasglu tystiolaeth briodol yn effeithlon ac yn effeithiol i'r dysgwr, a bod y broses o asesu'r dystiolaeth yn broses syml, dibynadwy a dilys i bawb dan sylw. Bydd angen i'r athro/athrawes pwnc fod yn gyfarwydd â gofynion SHC TGCh ynghyd â gofynion asesu penodol ei bwnc ei hun, i sicrhau y caiff tystiolaeth briodol ei chynhyrchu'n effeithlon ar gyfer y ddau.

[2] O Mynediad 1 i Lefel 3. Gellir dod o hyd i fanylion yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gweler 'Sgiliau Hanfodol Cymru' yn yr adran 'Gwybodaeth ar gyfer darparwyr dysgu').

## Lefel Mynediad

Nodir uchod bod y gyfres o gymwysterau SHC yn cwmpasu Lefel Mynediad 1 i Lefel 4. Yn ogystal â hynny, ceir dewis o gymwysterau TGCh sy'n delio â darpariaeth lefel Mynediad yn benodol. Mae'r cymwysterau hyn yn addas ar gyfer ystod o ddysgwyr. Maen nhw'n cynrychioli haen gyntaf y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol a gallan nhw helpu i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder wrth ddefnyddio TGCh mewn camau hydrin. Maen nhw'n addas ar gyfer dysgwyr nad ydyn nhw'n barod eto i sefyll cymhwyster TGCh ar Lefel 1 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ac yn cydnabod llwyddiant ar Mynediad 1, Mynediad 2 a Mynediad 3, lle mai Mynediad 3 yw'r uchaf. Gall dysgwyr symud ymlaen o lefel Mynediad i gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 megis TGAU neu SHC.

## TGAU

Mae'r Adolygiad o'r Cwricwlwm yng Nghymru a'r datblygiadau cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi rhoi cyfle i ddiwygio cymwysterau TGAU mewn TGCh yn sylweddol er mwyn iddyn nhw adlewyrchu datblygiadau yn y pwnc ac yn y cwricwlwm. Bydd manylebau diwygiedig sy'n anelu at ddarparu gwell sicrwydd o'r sgiliau TGCh sydd eu hangen ar bobl ifanc i gymryd rhan a symud ymlaen mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gael i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2010. Yng Nghymru, bydd TGAU cwrs byr, dyfarniad sengl a dyfarniad dwbl mewn TGCh ar gael. Er eu bod wedi'u cynllunio i'w darparu drwy gwrs wedi'i amserlennu, bydd yr amser cwricwlwm sydd ei angen yn amrywio, yn dibynnu ar a yw'r dysgwr yn anelu at gwrs byr, neu gymhwyster dyfarniad sengl neu ddwbl. Mae hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion deilwra'r cwrs i anghenion y dysgwr, er enghraifft, o ran pa mor llawn y gallai amserlen y dysgwr fod.

Bydd manylebau ar gyfer 2010 yn rhoi manylion am yr asesiad(au) a reolir mae angen i'r dysgwyr eu cyflawni ac yn nodi trefniadau ar gyfer gosod tasgau, cyflawni tasgau (yn cynnwys faint o amser y dylai pob tasg ei chymryd) a marcio tasgau. Bydd ystyried diddordebau'r dysgwr, yr amser sydd ei angen i gwblhau'r asesiad a reolir a sut mae'r ysgol yn bwriadu cyflwyno cynnwys y fanyleb i gyd yn helpu ysgolion i bennu pa un o'r cyrsiau TGAU sydd fwyaf priodol.

**UG**

Gall cymwysterau Lefel 3 megis UG mewn TGCh ddarparu ysgogiad a chymhelliant priodol ar gyfer y dysgwyr mwyaf galluog yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae manylebau UG mewn TGCh ac UG mewn TGCh Gymhwysol ar gael, ynghyd ag UG mewn Cyfrifiaduro; bydd y dewis yn dibynnu ar ba mor dda y gallai pob un weddu i ddarpariaeth cyn-16 ac ôl-16 yr ysgol.

**Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs)**

Mae Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs) yn gymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith, yn seiliedig ar gymhwysedd ac yn seiliedig ar safonau galwedigaethol cenedlaethol. Maen nhw'n adlewyrchu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gyflawni swydd yn effeithiol, ac yn dangos bod dysgwr yn gymwys yn y maes gwaith mae'r NVQ[3] yn ei gynrychioli. Bydd dysgwyr yn casglu tystiolaeth i brofi eu bod yn gymwys i gwrdd â'r safonau NVQ. Yng nghyd-destun y canllawiau hyn, cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 NVQ sy'n debygol o fod fwyaf priodol ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4.

**Cymwysterau Galwedigaethol**

Mae Cymwysterau Galwedigaethol yn gymwysterau a addysgir sydd wedi'u cynllunio'n bennaf i baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth neu swyddi penodol drwy wella eu sgiliau, gwybodaeth neu hyfedredd mewn pynciau cysylltiedig.

Maen nhw'n wahanol i NVQs am eu bod yn paratoi dysgwyr ar gyfer gwaith mewn sector galwedigaethol yn hytrach na'u hasesu a nodi eu bod yn gymwys i weithio yn y sector galwedigaethol hwnnw.

**Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)**

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cyfuno sgiliau datblygu personol â chymwysterau sy'n bodoli eisoes megis TGAU, NVQs a Safon Uwch i greu un dyfarniad ehangach. Mae TGCh yn un o ofynion craidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a gellir astudio am gymwysterau TGCh fel rhan o'r Opsiynau hefyd (er enghraifft, TGAU, NVQs, BTEC). Mae rhagor o wybodaeth am Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn www.bagloriaethcymru.org.uk

[3] ITQ yw'r NVQ ar gyfer defnyddwyr TG. Gweler www.e-skills.com

### Cymwysterau Prif Ddysgu

Mae'r rhain yn gymwysterau newydd sy'n cael eu cyflwyno'n raddol yng Nghymru. Dechreuodd y broses hon ym mis Medi 2009. Cawson nhw eu cynllunio gan gyflogwyr ac felly maen nhw'n berthnasol ac yn gyfoes. Mae Prif Ddysgu mewn Technoleg Gwybodaeth ar gael ar Lefelau 1, 2 a 3 a gellir astudio ar ei gyfer ochr yn ochr â chymhwyster Project fel unedau opsiwn yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru.

## Manylion cyswllt

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cymwysterau uchod a chymwysterau arbenigol ychwanegol a gynigir gan gyrff dyfarnu unigol yn:

www.aqa.org.uk
www.edexcel.com
www.ocr.org.uk
www.cbac.co.uk

Gellir cael gafael ar restr lawn o aelodau Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu yn www.awarding.org.uk. Mae Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu yn cynrychioli sefydliadau sy'n dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn y DU ac mae nifer ohonyn nhw'n cynnig ystod o gymwysterau TGCh.

## Cymwysterau arbenigol

Efallai bydd ysgolion am ystyried y cymwysterau a gynigir gan gyrff dyfarnu penodol ym mis Medi 2010.

Nid yw'n bosibl trafod pob cymhwyster TGCh lefel Mynediad i Lefel 3 sydd ar gael yng nghwmpas y canllawiau hyn. Er hynny, dangosir ystod o gymwysterau yn yr atodiad ac mae rhai wedi'u cynnwys yn yr astudiaethau achos sy'n dilyn. At hynny, darperir dolenni i'r Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig a'r rhestr o gymwysterau cymeradwy i ddysgwyr yng Nghymru ar dudalen 24.

# Astudiaethau achos

Yn yr adran hon, cyflwynir chwech astudiaeth achos i ddarparu enghreifftiau o sut yr eir i'r afael â darpariaeth TGCh yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'r astudiaethau achos yn dangos sut mae ysgolion yn gweithio ar hyn o bryd mewn ystod o wahanol ffyrdd gyda chymwysterau sy'n bodoli eisoes, ond bydd llawer o'r nodweddion a nodwyd, megis hyblygrwydd i ddysgwyr, hefyd yn berthnasol i gyrsiau ar gael o 2010.

Mae'r holl astudiaethau achos yn dangos darpariaeth lwyddiannus o fewn ysgolion unigol. Mae'r ysgolion hyn wedi dewis cymwysterau i ddiwallu anghenion eu dysgwyr eu hunain. Nid yw cynnwys cymhwyster mewn astudiaeth achos yn golygu bod APADGOS yn ei gymeradwyo nac yn ei argymell. Anogir ysgolion i ystyried yr holl gymwysterau sydd ar gael wrth benderfynu ar eu darpariaeth eu hunain ar gyfer 2010 a thu hwnt.

## ASTUDIAETH ACHOS 1

### TGAU mewn TGCh Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl) ac AiDA

Mae'r astudiaeth achos hon yn dod o ysgol i ddysgwyr rhwng 11 a 18 oed â thua 1200 o ddysgwyr, gyda 250 o'r rheini yn y chweched dosbarth.

Mae'r diwrnod ysgol wedi'i rannu'n bum cyfnod o 60 munud. Mae'r ysgol yn gweithredu amserlen pythefnos o hyd.

Mae gan yr ysgol hanes o gynnig ystod o gyrsiau TGCh yn ystod Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys TGAU mewn TGCh ac ECDL. Yn ddiweddar datblygodd yr ysgol ei darpariaeth i gynnig dewis o AiDA (o'r gyfres DiDA) neu TGAU mewn TGCh Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl) i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4. Dewiswyd y cymwysterau hyn oherwydd eu natur ymarferol a'r profiad dysgu a gynigir ganddyn nhw.

Ar hyn o bryd, nid yw pob dysgwr yn astudio pwnc TGCh yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Caiff y rheini sy'n dewis AiDA yr un faint o amser ag y neilltuir ar gyfer un TGAU (pedair gwers un awr bob pythefnos); bydd tua dwbl yr amser gan y rheini sy'n dewis TGAU mewn TGCh Gymhwysol (naw gwers un awr bob pythefnos). Mae'r amser ychwanegol ar gyfer TGCh Gymhwysol yn bwysig. Mae hwn yn bwnc ymarferol sydd â phwyslais sylweddol ar bortffolio ac felly mae angen yr amser ar ddysgwyr i feithrin eu sgiliau TGCh cyn iddyn nhw allu eu cymhwyso'n briodol yn nhasgau'r portffolio. Caiff y ddau gwrs eu haddysgu gan arbenigwyr TGCh sydd wedi gallu cwblhau hyfforddiant a gynigir gan y cyrff dyfarnu priodol – mae hyn yn ystyriaeth bwysig am fod y broses o gyflwyno cynnwys y fanyleb a'r cynllun asesu cysylltiedig yn wahanol iawn i'r cyrsiau a addysgwyd yn flaenorol.

Mae'r dull hwn o weithredu yn rhoi dewis o ddau gwrs TGCh i ddysgwyr sy'n dra gwahanol i'w gilydd ac yn amrywio o ran yr ymrwymiad amser sydd ei angen.

Cynigir Safon Uwch mewn Cyfrifiaduro yn y chweched dosbarth a chaiff pob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 4 y cyfle i ddilyn y llwybr dilyniant hwn. Er bod y cyrsiau uchod yn rhoi'r cyfle i feithrin sgiliau sy'n seiliedig ar ddefnydd sy'n bwysig ar gyfer cyflogaeth ar raddfa ehangach, mae'r ysgol o'r farn nad ydyn nhw bob amser yn ategu'r lefel o wybodaeth ddamcaniaethol sydd ei hangen ar gyfer y cwrs Safon Uwch mewn Cyfrifiaduro.

Mae'r ddarpariaeth bresennol yn cynnig dau gwrs poblogaidd a llwyddiannus i ddysgwyr. Er hynny, mae'r ysgol yn gobeithio datblygu darpariaeth ymhellach o 2010. Mae'r ysgol yn bwriadu cynnig cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 2 yn ystod Cyfnod Allweddol 4 i ategu'r broses o gyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae dewis TGAU dyfarniad sengl mewn TGCh hefyd yn cael ei ystyried.

Mae gan yr ysgol ddiddordeb arbennig yn y gydberthynas rhwng y cymwysterau TGAU dyfarniad sengl a dwbl o 2010. Ar hyn o bryd mae'r dyfarniad dwbl (Cymhwysol) a'r dyfarniad sengl yn wahanol iawn o ran strwythur, cynnwys ac asesu. Ymddengys y gallai cydberthynas agosach rhyngddyn nhw o 2010 ei gwneud yn haws i ddysgwyr symud o un i'r llall (neu i gwrs byr) os bydd angen gwneud hynny. Mae'r ysgol hefyd yn ymchwilio i gyrsiau TGAU 2010 o ran symud ymlaen i Safon Uwch mewn Cyfrifiaduro.

## ASTUDIAETH ACHOS 2

### Sgiliau Allweddol TGCh, TGAU (Cwrs Byr) mewn TGCh, TGAU mewn TGCh a Chymwysterau OCR Cenedlaethol

Mae'r astudiaeth achos hon yn dod o ysgol i ddysgwyr rhwng 11 a 18 oed â thua 1100 o ddysgwyr, gyda 230 o'r rheini yn y chweched dosbarth.

Mae'r diwrnod ysgol wedi'i rannu'n chwe chyfnod o 50 munud.

Mae'r ysgol yn rhoi'r dewis i ddysgwyr gofrestru am gymhwyster Sgil Allweddol mewn TGCh[4] (ar Lefel 1 neu Lefel 2) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Rhoddir y cyfle i ddysgwyr weithio gydag amrywiaeth o gymwysiadau megis trin data, meddalwedd modelu a chyflwyno, golygu fideo/sain ac animeiddio. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnal archwiliad o sgiliau TGCh a ddatblygwyd mewn pynciau eraill yn ystod Blwyddyn 9, ar ôl blwyddyn lawn o ddysgu'r cwricwlwm diwygiedig. Bydd y canlyniadau'n llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â chasglu tystiolaeth ar gyfer cymwysterau SHC o fis Medi 2010.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dewis TGAU mewn TGCh neu TGAU (Cwrs Byr) mewn TGCh. Mae'r rheini sy'n dewis cwrs TGAU yn cael tair gwers yr wythnos drwy gydol Cyfnod Allweddol 4. Mae'r rheini sy'n dewis TGAU (Cwrs Byr) yn cael tair gwers yr wythnos ym Mlwyddyn 10, yna'n mynd ymlaen i'r TGAU (Cwrs Byr) mewn Addysg Grefyddol ym Mlwyddyn 11. Fel dewis amgen, mae Dyfarniad Cyntaf yr OCR Cenedlaethol mewn TGCh (sy'n cyfateb i un TGAU) yn cael ei gyflawni gan grŵp bach o ddysgwyr. Mae rhai dysgwyr wedi'u cofrestru ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn ogystal.

Cynigir cwrs UG a chwrs Safon Uwch mewn TGCh yn y chweched dosbarth – mae'r llwybr dilyniant hwn ar gael i bawb. At hynny, mae pob dysgwr yn y chweched dosbarth wedi'i gofrestru ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Cynhelir y rhan fwyaf o wersi TGCh yn ystod Cyfnod Allweddol 3 gan athrawon TGCh arbenigol, ond mae athrawon nad ydyn nhw'n arbenigwyr hefyd yn cyfrannu ac (fel y nodir uchod) mae cyfleoedd am waith traws-gwricwlaidd yn cael eu hystyried. Athrawon TGCh arbenigol sy'n dysgu pob cwrs TGCh a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt.

[4] Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar Sgiliau Allweddol, a gaiff eu disodli gan SHC o 2010. Mae'r ysgol yn gyfarwydd â safonau SHC ac ar hyn o bryd mae'n aros i fanylebau cyrff dyfarnu gael eu cyhoeddi. Bydd hyn yn galluogi'r ysgol i nodi gofynion y dyfodol fel y gall y broses o ddatblygu sgiliau TGCh priodol ar sail traws-gwricwlaidd barhau o dan y trefniadau newydd.

## ASTUDIAETH ACHOS 3

### TGCh Lefel Mynediad, TGAU (Cwrs Byr) mewn TGCh, TGAU mewn TGCh a Sgiliau Allweddol TGCh

Mae'r astudiaeth achos hon yn dod o ysgol arbennig breswyl â thua 50 o blant rhwng 8 ac 16 oed gydag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

Drwy'r ysgol gyfan, gwelir TGCh nid yn unig fel pwnc yn ei rinwedd ei hun, ond fel offeryn i'w ddefnyddio ym mhob maes cwricwlwm, lle bynnag bo hynny'n briodol. Golygir hyn bod pob athro/athrawes yn dysgu TGCh, waeth pa feysydd y mae ef/hi yn arbenigo ynddyn nhw.

Mae ystod eang o anawsterau yn perthyn i ddysgwyr gydag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, a mae angen amrywiaeth o ddulliau i fynd i'r afael â nhw. Tra nad yw defnydd priodol o TGCh yn datrys anawsterau emosiynol y dysgwyr, gwelir hyn fel erfyn arwyddocaol wrth gefnogi'r anghenion emosiynol, yn ogystal â nodau ac amcanion yr ysgol gyfan. Mae'r ystod o gyfleusterau TGCh sydd ar gael i ddysgwyr drwy gydol y dydd a gyda'r hwyr yn adlewyrchu pwysigrwydd TGCh ym mhob rhan o'r ysgol.

Mae'r diwrnod ysgol wedi'i rannu'n chwe chyfnod o 50 munud.

Mae dysgwyr Blwyddyn 9 yn cael tair gwers TGCh benodedig bob pythefnos, a thra'n mynd i'r afael â rhaglen astudio Cyfnod Allweddol 3, maen nhw hefyd yn cyflawni'r cydran gwaith cwrs ar gyfer TGCh lefel Mynediad. Maen nhw'n sefyll yr arholiad ysgrifenedig ar gyfer y cymhwyster hwn ar ddiwedd Blwyddyn 10.

Mae dysgwyr Blwyddyn 10 yn cael pedair gwers TGCh benodedig bob pythefnos. Dyma lle datblygir y sgiliau maen nhw wedi eu meithrin eisoes er mwyn cyflawni'r cydran portffolio o fewn y fanyleb TGAU mewn TGCh.

Mae dysgwyr Blwyddyn 11 yn cael rhwng tair a saith gwers TGCh benodedig bob pythefnos, yn ddibynnol ar ymrwymiadau galwedigaethol. Gan ystyried eu galluoedd a'u diddordebau, a'r amser sydd ar gael, rhoddir cyfle i ddysgwyr symud ymlaen at y gydran project o fewn y fanyleb TGAU mewn TGCh.

Lle mae dysgwyr yn dewis cyflawni'r project, cofrestrir nhw ar gyfer y cymhwyster TGAU llawn; fel arall, maen nhw'n cymeryd y cymhwyster cwrs byr. Mae'r ychydig ddysgwyr nad ydyn nhw'n cymeryd yr un o'r opsiynau TGAU ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gyflawni cymhwyster Sgil Allweddol.

Ar gyfer y dyfodol, mae'r ysgol yn adolygu ei darpariaeth o ran cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru a'r manylebau TGAU diwygiedig fydd yn dod i rym yn 2010. Bydd y cymwysterau hyn yn cael eu dadansoddi gan ystyried y dysgwyr cyfredol a rhai'r dyfodol (mae dysgwyr newydd yn dod gydag anawsterau newydd lle mae galw am ymdriniaeth wahanol). Ymddengys bod natur fodiwlaidd y TGAU diwygiedig yn gweddu at ymagwedd yr ysgol tuag at gyrsiau byr a llawn. Mae'r newid tuag at asesu dan reolaeth yn gofyn am ystyriaeth ofalus i sicrhau rhoi'r cyfle gorau i ddysgwyr i allu dangos eu sgiliau a'u dealltwriaeth mewn TGCh.

## ASTUDIAETH ACHOS 4

### TGAU mewn TGCh a UG mewn TGCh

Mae'r astudiaeth achos hon yn dod o ysgol i ddysgwyr rhwng 11 a 18 oed â thua 1400 o ddysgwyr, gyda 250 o'r rheini yn y chweched dosbarth.

Mae'r diwrnod ysgol wedi'i rannu'n chwe chyfnod o 50 munud.

Mae'r ysgol yn cynnig TGAU mewn TGCh i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 gyda thair gwers 50 munud yr wythnos. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r ysgol, wrth fodloni gofynion TG/TGCh y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 3, wedi sicrhau y gall gweithgareddau'r dysgwyr ym Mlwyddyn 9 hefyd gyfrannu at y portffolio TGAU mewn TGCh.

Mae rhai o'r dysgwyr mwyaf galluog yn sefyll arholiad TGAU mewn TGCh ar ddiwedd Blwyddyn 10 ac UG mewn TGCh ar ddiwedd Blwyddyn 11. Mae datblygu sgiliau priodol a chasglu tystiolaeth addas ar gyfer portffolio TGAU mewn TGCh yn ystod Blwyddyn 9 yn helpu i sicrhau bod dysgwyr a gofrestrir ar gyfer TGAU ar ddiwedd Blwyddyn 10 wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer yr arholiad. Aed i'r afael â'r her o ddarparu cwrs UG ochr yn ochr â chwrs TGAU yn ystod Blwyddyn 11 yn rhannol drwy ddechrau defnyddio amgylchedd dysgu rhithwir yr ysgol.

Yn y chweched dosbarth, rhoddir y cyfle i ddysgwyr ddewis TAG mewn TGCh. Yn ogystal, mae dysgwyr Blwyddyn 12 yn gallu astudio Sgil Allweddol TGCh Lefel 2 fel rhan o'r CBC.

Ar gyfer y dyfodol, mae'r ysgol yn bwriadu ystyried y cysylltiadau rhwng gwaith dysgwyr Blwyddyn 9 yn TGCh y cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig a'r cwrs TGAU diwygiedig mewn TGCh, a addysgir o fis Medi 2010. Bydd hyn yn galluogi'r dysgwyr mwyaf galluog i gwblhau eu TGAU mewn TGCh ym Mlwyddyn 10 a'u UG mewn TGCh ym Mlwyddyn 11, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'r ysgol hefyd yn bwriadu datblygu ei amgylchedd dysgu rhithwir i ehangu mynediad i bob pwnc a phob cyfnod allweddol.

## ASTUDIAETH ACHOS 5

### OCR Cenedlaethol

Mae'r astudiaeth achos hon yn dod o ysgol i ddysgwyr rhwng 11 a 18 oed â thua 1400 o ddysgwyr, gyda 140 o'r rheini yn y chweched dosbarth.

Mae gan yr ysgol draddodiad hir o gynnig cyrsiau TGAU mewn TGCh yng Nghyfnod Allweddol 4, a Safon Uwch mewn Cyfrifiaduro yn y chweched dosbarth. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu ei darpariaeth i gynnig mwy o gyrsiau galwedigaethol ac mae bellach yn cynnig OCR Cenedlaethol Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae'r diwrnod ysgol wedi'i rannu'n chwe chyfnod o 50 munud.

Mae pob dysgwr yn dilyn cwrs astudio wedi'i amserlennu ar gyfer TGCh yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Gall dysgwyr ddewis dau, tri neu naw cyfnod yr wythnos ar gyfer TGCh. Mae'r cymwysterau sydd ar gael fel a ganlyn:

| Cyfnodau 50 munud | Cymhwyster | Cymhwyster sy'n cyfateb i TGAU |
|---|---|---|
| 2 | OCR National ICT First Award (Lefel 2) | 1 (A*–C) |
| 3 | OCR National ICT Award (Lefel 2) | 2 (A*–C) |
| 9 | OCR National ICT Certificate (Lefel 2) | 4 (A*–C) |

Creodd yr opsiwn naw cyfnod yr wythnos heriau o ran staffio ac o ran sicrhau bod dysgwyr yn cael ystod eang o brofiadau sy'n eu cymell. Aed i'r afael â'r heriau hyn drwy amserlennu tair gwers gydag arbenigwyr TGCh, tair gydag athrawon o'r adran gerddoriaeth a'r adran gyrfaoedd, a thair gydag athrawon o'r adran dylunio a thechnoleg a'r adran gelf. Felly caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio TGCh mewn amrywiaeth o gyd-destunau, yn cynnwys technoleg cerddoriaeth a chynllunio drwy gymorth cyfrifiadur.

Yn y chweched dosbarth, gall dysgwyr fynd ymlaen i astudio UG a Safon Uwch mewn TGCh, neu OCR Cenedlaethol Lefel 3. Fel arall, gallan nhw astudio unedau pellach mewn OCR Cenedlaethol Lefel 2 i adeiladu'r 'dystysgrif', sy'n cyfateb i bedwar TGAU.

Mae'r dull gweithredu hwn yn rhoi ystod o ddewisiadau i ddysgwyr yn seiliedig ar y cymhwyster OCR Cenedlaethol mewn TGCh. Gall dysgwyr ddewis neilltuo rhwng awr a hanner hyd at saith awr a hanner yr wythnos i'w hastudiaethau TGCh. Er hynny, yng Nghyfnod Allweddol 4 mae'r dewis wedi'i gyfyngu i'r gyfres hon o gymwysterau. Y cam nesaf i'r ysgol yw adolygu ei darpariaeth i weld a fyddai'n bosibl, o ran ymrwymiad amser, i ddysgwyr allu dewis llwybr gwahanol yn ogystal â'r dewis eang sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r ysgol hefyd yn ystyried cyflwyno 'amlfodiwlau' o fewn gwersi i gefnogi dysgwyr wrth iddyn nhw wneud cynnydd yn eu hamser eu hunain.

## ASTUDIAETH ACHOS 6

### Sgiliau Allweddol TGCh, CiDA a DiDA

Mae'r astudiaeth achos hon yn dod o ysgol i ddysgwyr rhwng 11 a 18 oed â thua 1500 o ddysgwyr, gyda 260 o'r rheini yn y chweched dosbarth.

Mae'r diwrnod ysgol wedi'i rannu'n bum cyfnod o un awr, ac mae'r ysgol yn gweithredu amserlen pythefnos o hyd.

Mae'r ysgol yn cynnig dewis o CiDA (sy'n cyfateb i ddau TGAU) neu DiDA (sy'n cyfateb i bedwar TGAU) i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4. Bydd y rheini sy'n dewis CiDA yn cael pump gwers bob pythefnos, a'r rheini sy'n dewis DiDA yn cael 10 gwers bob pythefnos.

Caiff y cyrsiau eu haddysgu gan arbenigwyr TGCh, a ystyrir yn ffactor pwysig yn eu llwyddiant. Mae'r holl athrawon perthnasol wedi cael hyfforddiant a gynigiwyd gan y corff dyfarnu (mae hyn yn ffactor pwysig arall am fod y dull o asesu'r cymwysterau hyn yn wahanol iawn i ddarpariaeth TGCh flaenorol yr ysgol). Mae'r ysgol hefyd wedi manteisio ar gydberthynas waith agos â gwasanaeth cynghori'r awdurdod lleol.

Mae tua 70 y cant o'r dysgwyr presennol yn dilyn un o'r cyrsiau hyn. Ar gyfer y dyfodol mae'r ysgol yn ystyried cyrsiau a allai apelio at eraill fel bod mwy o ddysgwyr yn dilyn cwrs astudio TGCh yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Yn y gorffennol roedd yr ysgol yn cofrestru ymgeiswyr ar gyfer CiDA a DiDA ar Lefel 1 a Lefel 2. Bellach caiff pawb eu cofrestru ar Lefel 2 ac mae gan yr ysgol ddiddordeb mewn ehangu darpariaeth ar gyfer dysgwyr llai galluog, yn arbennig y rheini sydd efallai am ddilyn cwrs TGCh sy'n gofyn am lai o ymrwymiad o ran amser.

Ar hyn o bryd, mae pob dysgwr chweched dosbarth yn cael ei gofrestru ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. O Fedi 2009, bydd CBC yn cael ei gyflwyno yn ogystal yng Nghyfnod Allweddol 4.

Tra'n mynd i'r afael â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol TG/TGCh yn ystod Cyfnod Allweddol 3, mae'r ysgol wedi sicrhau bod cyfleoedd gan ddysgwyr i adeiladu portffolio o dystiolaeth ar gyfer Sgiliau Allweddol TGCh. Cofrestrir nhw ar gyfer rhain ar ddiwedd Blwyddyn 10. Ar gyfer y dyfodol, bwriad yr ysgol yw archwilio'r berthynas rhwng SHC TGCh a gweithgareddau dysgwyr yn ystod Blwyddyn 9.

# Y ffordd ymlaen

Mae darpariaeth TGCh yn amrywio'n helaeth rhwng ysgolion yng Nghymru. Mewn llawer o ysgolion rhoddir y cyfle i gyfran fawr o ddysgwyr, os nad pob un ohonyn nhw, ddefnyddio eu sgiliau TGCh a'u datblygu, ac i ennill cymhwyster sydd wedi'i achredu yn ystod Cyfnod Allweddol 4.

Ceir heriau mae angen mynd i'r afael â nhw o ran rhoi'r hawl hon i bob dysgwr. Er hynny, am fod dealltwriaeth gadarn o TGCh mor bwysig heddiw, bydd dysgwyr na chân nhw y cyfle hwn o dan anfantais mewn sawl agwedd ar fywyd modern, nid yn unig o ran cyfleoedd cyflogaeth.

Dylai'r pwyntiau canlynol helpu ysgolion i roi'r hawl hon i bob dysgwr.

- Mae angen i'r ysgol gyfan ymrwymo i faes TGCh.
- Gellir defnyddio fframwaith hunanadolygu TGCh Becta i werthuso darpariaeth ac arfer presennol o ran y defnydd o TGCh, nodi'r hyn sy'n dda a helpu i flaenoriaethu meysydd i'w datblygu.
- Dylai'r cynllun datblygu ysgol gynnwys proses briodol o fonitro a gwerthuso er mwyn llywio cynllunio ar gyfer y dyfodol a thargedu darpariaeth ac arfer yn y defnydd o TGCh.
- Mae angen rhoi ystyriaeth i adnoddau, o ran staffio a chyfarpar, a chynllunio ar eu cyfer o'r dechrau.
- Dylai Cyfnod Allweddol 3 fod yn brofiad cadarnhaol fel y caiff dysgwyr eu hysgogi i barhau i ddatblygu eu sgiliau TGCh yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt.
- Mae angen i ddysgwyr a'u rhieni ddeall y dewisiadau sydd ar gael ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn glir.
- Dylid cefnogi dysgwyr fel y gallan nhw benderfynu pa gymhwyster a fyddai fwyaf addas iddyn nhw.
- Mae rhoi digon o amser ar gyfer cwrs, yn unol â chanllawiau cyrff dyfarnu, yn hanfodol i roi'r cyfle gorau o lwyddo i ddysgwyr.
- Mae dewis yn bwysig i ddysgwyr. Ni fydd pob un ohonyn nhw am ddilyn cwrs astudio wedi'i amserlennu mewn TGCh os byddai gwneud hynny'n cyfyngu ar ddewisiadau eraill. Gall cymwysterau sy'n gofyn am lai o ymrwymiad amser (er enghraifft, TGAU Cwrs Byr) neu gymwysterau y gellir eu hasesu'n seiliedig ar gasglu tystiolaeth o feysydd pwnc eraill (er enghraifft, SHC) helpu yn hyn o beth.

- Mae strwythur modiwlaidd llawer o gymwysterau TGCh yn golygu y gellir diwygio penderfyniadau o ran 'maint' y cymhwyster terfynol i adlewyrchu cynnydd y dysgwr (yn amodol ar derfynau amser cyrff dyfarnu ar gyfer mynediad).
- Nid oes templed cyffredinol ar gyfer amserlennu ond mae gan ymrwymiad a dychymyg y rheini sy'n gyfrifol am yr amserlen y potensial i wneud gwahaniaeth mawr i'r ystod o gyrsiau TGCh sydd ar gael i ddysgwyr.
- Dylid cefnogi athrawon fel eu bod yn ymwybodol o dechnolegau newydd a gofynion y cymwysterau TGCh.
- Dylid cynnal y broses gynllunio yng nghyd-destun y rhaglen Llwybrau Dysgu 14–19, i sicrhau bod gan ddysgwyr o bob gallu ddewis eang o gymwysterau priodol.

# Atodiad

## Enghreifftiau o gymwysterau TGCh arbenigol

Mae'r tabl canlynol yn rhestru rhai o'r cymwysterau TGCh arbenigol sydd ar gael. Mae'r tabl er gwybodaeth yn unig ac nid yw cynnwys cymhwyster ynddo yn golygu bod APADGOS yn cymeradwyo nac yn argymell y cymhwyster hwn. Anogir ysgolion i ystyried yr holl gymwysterau sydd ar gael gan ddefnyddio'r dolenni isod.

Gellir canfod gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy ar gyfer dysgwyr yng Nghymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gweler 'Arweiniad a gwybodaeth' yn yr adran 'Cyhoeddiadau').

Mae'r Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig ar gael yn www.accreditedqualifications.org.uk ac yn cynnwys manylion cymwysterau sydd wedi'u hachredu gan y rheoleiddwyr cymwysterau allanol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

| Cymhwyster | Disgrifiad | Sylwadau/manylion cyswllt |
|---|---|---|
| **BTEC** | **BTEC Level 2 First Diploma for ICT Practitioners** – cyfateb i bedwar TGAU (A* i C).<br><br>**BTEC Level 2 First Certificate for ICT Practitioners** – cyfateb i ddau TGAU (A* i C).<br><br>Cymhwyster sy'n gysylltiedig â gwaith.<br><br>Mae angen dwy uned graidd a digon o unedau arbenigol i roi cyfanswm o 360 awr ar gyfer y Diploma; mae angen un uned graidd ynghyd â digon o unedau arbenigol i roi cyfanswm o 180 awr ar gyfer y Dystysgrif.<br><br>Mae rhai unedau'n cynnwys cymwysterau gwerthwyr TG arbenigol. | Caiff y rhan fwyaf o unedau eu hasesu'n fewnol a'u dilysu'n allanol gan y corff dyfarnu.<br><br>Mae rhai unedau'n unedau gwerthwyr, a asesir drwy arholiadau allanol.<br><br>www.edexcel.com |

| Cymhwyster | Disgrifiad | Sylwadau/manylion cyswllt |
| --- | --- | --- |
| **CLAiT** | **Level 1 Certificate/Diploma for IT Users** (New CLAiT)<br><br>**Level 2 Certificate/Diploma for IT Users** (CLAiT Plus)<br><br>**Level 3 Certificate/Diploma for IT Users** (CLAiT Advanced)<br><br>Ar gael fel unedau sengl, Tystysgrif (3 uned) neu Diploma (5 uned). | Caiff yr unedau eu hasesu'n fewnol, a'u cymedroli'n allanol gan y corff dyfarnu.<br><br>Ceir sawl dewis o ran asesu (yn dibynnu ar yr uned a'r lefel) gan gynnwys e-bortffolio, marcio cyfrifiadurol neu drwy ddefnyddio profion arbenigol Microsoft Office.<br><br>www.ocr.org.uk |
| **DiDA** | **AiDA – Award in Digital Applications** (Uned 1 yn unig) – cyfateb i un TGAU.<br><br>**CiDA – Certificate in Digital Applications** (Uned 1 ac unrhyw uned arall) – cyfateb i ddau TGAU.<br><br>**CiDA+ – Extended Certificate in Digital Applications** (Uned 1 ac unrhyw ddwy uned arall) – cyfateb i dri TGAU.<br><br>**DiDA – Diploma in Digital Applications** (Uned 1 ac unrhyw dair uned arall) – cyfateb i bedwar TGAU. | Cyflwyno ar ffurf electronig.<br><br>Caiff yr holl unedau eu hasesu'n fewnol, a'u cymedroli'n allanol gan y corff dyfarnu.<br><br>Lefel 1 a Lefel 2.<br><br>www.edexcel.com/quals/dida |
| **Digital Cre8or** | Ar gael fel dyfarniad pedair uned ac fel tystysgrif wyth uned.<br><br>Mae DigitalCre8or wedi'i strwythuro'n bum uned 'greadigol' a thair uned 'gydrannol'. I ennill y Dyfarniad, mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau pedair uned yn llwyddiannus, gan gynnwys o leiaf un o bob grŵp. I gyflawni'r Dystysgrif mae'n rhaid cwblhau pob un o'r wyth uned. | Cyflwyno unedau i'w hasesu yn electronig.<br><br>Ar gael ar Lefel 2 ar hyn o bryd; mae cymhwyster Lefel 1 yn cael ei greu ar hyn o bryd.<br><br>www.bcs.org |

| Cymhwyster | Disgrifiad | Sylwadau/manylion cyswllt |
|---|---|---|
| **ECDL** | **Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd (Maes Llafur 5)**<br><br>Mae'r cymhwyster ECDL yn gymhwyster modiwlaidd sy'n cynnwys unedau prosesu geiriau, taenlenni, cronfeydd data, meddalwedd cyflwyniadau, gwarchodaeth TG, rheoli ffeiliau a chyfathrebu electronig.<br><br>Mae angen saith uned ar gyfer y cymhwyster ECDL cyfan. | Mae'r asesiadau'n ymarferol a chân nhw eu cynnal ar sgrîn.<br><br>Gellir cyflawni unedau mewn unrhyw drefn.<br><br>www.ecdl.org |
| **OCR Nationals** | **Mae cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 fel a ganlyn:**<br><br>**Lefel 1**<br>First Award, Award, Certificate – cyfateb i un, tri neu bedwar TGAU (graddau D–G) yn y drefn honno.<br><br>**Lefel 2**<br>First Award, Award, First Certificate, Certificate – cyfateb i un, dau, tri neu pedwar TGAU (graddau A*–C) yn y drefn honno. | Caiff yr holl unedau eu hasesu'n fewnol a'u safoni'n allanol gan y corff dyfarnu.<br><br>Cymwysterau Lefelau 1, 2 a 3.<br><br>www.ocrnationals.com |

| Cymhwyster | Disgrifiad | Sylwadau/manylion cyswllt |
|---|---|---|
| **Prif Ddysgu** | Bydd elfennau o'r Diplomâu 14–19 sy'n cael eu datblygu yn Lloegr ar gael yng Nghymru drwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.<br><br>Bydd Prif Ddysgu ym maes TGCh yn darparu dealltwriaeth ymarferol o sut mae technoleg yn chwarae rôl allweddol mewn busnes. Mae'r elfennau'n cynnwys:<br><br>• Busnes – sut mae sefydliadau'n gweithio a'r rôl y gall technoleg ei chwarae<br><br>• Pobl – sut i weithio'n dda gyda phobl eraill<br><br>• Technoleg – sut i lunio atebion technolegol. | Gellid defnyddio Prif Ddysgu ym maes galwedigaethol Technoleg Gwybodaeth fel rhan o ofynion Dewisiadau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.<br><br>Cynigir Prif Ddysgu mewn TG ar gyfer Bagloriaeth Cymru gan CBAC, mewn partneriaeth ag Edexcel, a gan OCR.<br><br>www.bagloriaethcymru.org.uk |

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r athrawon a'r ysgolion a wnaeth helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Yn arbennig, mae APADGOS yn ddiolchgar i'r ysgolion canlynol am roi help a gwybodaeth yn ymwneud â darpariaeth TGCh:

Ysgol Bishop Gore, Abertawe
Ysgol David Hughes, Ynys Môn
Ysgol Emrys Ap Iwan, Conwy
Ysgol Gyfun Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gyfun Cymer Rhondda, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gyfun Gatholig Esgob Vaughan, Abertawe
Ysgol Gyfun Gwynllyw, Torfaen
Ysgol Gyfun y Strade, Sir Gâr
Ysgol Gyfun Ystalyfera, Abertawe
Ysgol Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Penglais, Ceredigion
Ysgol Rhydygors, Sir Gâr
Ysgol Sant Cyres, Bro Morgannwg.